# Minutes

## Cyngor

Date: Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022

Time: 5.00 pm

Present: Councillors J Cleverly, P Cockeram, K Critchley, D Davies, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, H Townsend, J Watkins, A Morris, G Horton, F Hussain and J Jones

Apologies: Councillors R White, V Dudley, T Holyoake and W Routley

---

1. **Rhagofynion**

**1.i Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dudley a Routley

**1.ii Datgan Buddiant**

Dim

**1.iii Cyhoeddiadau'r Maer**

Cyflwynodd yr Arweinydd Gavin Horton, cynghorydd Llafur newydd ar gyfer ward Fictoria ac estyn croeso ffurfiol i'r Maer i'r cyfarfod.

2. **Cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion 23 Tachwedd 2021 a'u derbyn fel cofnod cywir.

3. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi cytuno arnynt, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar y penodiadau canlynol.

**Penodiadau Cyrff Llywodraethol**

| Corff Llywodraethol | Nifer y Swyddi Gwag / Ailbenodiadau | Enwebiadau a Gafwyd |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd High Cross | 1 | Stewart Jones |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Basaleg | 1 | Gavin Horton |
| Ysgol Gynradd Clytha | 1 | Lucy Arthur |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | 1 | James Clarke |
| Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Malpas | 1 | Jane Mudd |
| Ysgol Bryn Derw | 1 | Chris Mai |
| Ysgol Gynradd Parc Malpas | 1 | I'w gadarnhau |
| Ysgol Gynradd Crindau | 1 | Colin Seeney |
| Ysgol Gynradd Llyswyry | 1 | Ruqia Hayat |
| Ysgol Gynradd Parc Tredegar | 1 | Allan D Screen |
| Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion | 1 | Abby Vowles |
| Ysgol Gynradd Tŷ Du | 1 | Paula Bartlett |
| Ysgol Uwchradd Sant Joseff | 1 | Alex Pimm |
| Ysgol Gynradd Maendy | 1 | Gavin Horton |

**Cyfarfodydd Pwyllgor**

Pwyllgor Craffu Perfformiad: Lle a Chorfforaethol, y Cynghorydd J Cleverly i gymryd lle'r Cynghorydd C Evans fel Cadeirydd.

**Goddefeb**
Cynigiwyd gan y Cyng. Harvey ac eiliwyd yn briodol gan y Cyng. Fouweather y dylai'r Cyngor ganiatáu goddefebau am absenoldeb estynedig i'r Cynghorydd Holyoake a'r Cynghorydd White.

**Penderfynwyd:**
Y dylid caniatáu goddefeb arbennig i'r Cynghorwyr Holyoake a White am chwe mis o absenoldeb o dan adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Materion yr Heddlu**

Roedd y Maer yn falch o groesawu'r Uwcharolygydd Vicki Townsend i'r cyfarfod.

Gofynnwyd a wnâi'r aelodau nodi mai hwn oedd cyfarfod cyntaf yr Uwcharolygydd Townsend a'i bod yma heddiw i'w cyflwyno ei hun ac i bennu ei blaenoriaethau plismona. Gofynnodd y Maer felly i'r aelodau gyfyngu unrhyw gwestiynau i unrhyw faterion a oedd yn codi o'i chyflwyniad, yn hytrach na gofyn unrhyw gwestiynau manwl a allai fod ganddynt ynghylch materion plismona penodol yn eu wardiau, gan na fyddai'r Uwcharolygydd Townsend mewn sefyllfa i ateb y cwestiynau hynny heddiw, a byddai angen disgwyl tan gyfarfod nesaf y Cyngor i'w gofyn.

Cwestiynau a godwyd gan gynghorwyr:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitehead at y defnydd o feiciau oddi ar y ffordd, ger Hosbis Dewi Sant. Adroddwyd yn flaenorol fod hyn yn broblem gyson, a'u bod yn amharu ac yn tarfu ar gleifion a'u teuluoedd. Soniodd yr Uwcharolygydd wrth y Cynghorydd Whitehead am brofiad tebyg yr oedd wedi dod ar ei thraws wrth weithio ym Mlaenau Gwent a'r mesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â hynny. Roedd yr Uwcharolygydd Townsend wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod diweddar ynghylch beiciau ffordd a cheir gydag adolygiad ar 27 Ionawr. Byddai'r Heddlu'n croesawu unrhyw wybodaeth bellach drwy gysylltu â 101 i roi cudd-wybodaeth a fyddai'n galluogi'r Heddlu i greu darlun o'r sefyllfa.

- Soniodd y Cynghorydd Al Nuaimi am gyllid partneriaeth rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn gysylltiedig â diogelwch a oedd i'w wario erbyn mis Mawrth 2022, a gofynnodd sut roedd

yr arian yn cael ei wario, a beth y gellid ei ddisgwyl gan y cyhoedd. Roedd yr Uwcharolygydd yn ymwybodol o'r fenter Strydoedd Mwy Diogel a Phrif Arolygydd penodedig a oedd yn cyfeirio cyllid at y meysydd a nodwyd. Roedd yr Heddlu yn y cam caffael a oedd yn golygu bod angen cadw at rai prosesau a gofynion ond byddai targed mis Mawrth yn cael ei gyrraedd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at ddefnydd amhriodol o gerbydau ar SDR ar nosweithiau Sul yn arbennig a gofynnwyd am ddefnyddio Gan Bwyll i fynd i'r afael â hyn, a gofynnodd y Cynghorydd Jeavons a allai'r Uwcharolygydd fynd ar drywydd hyn â'r Arolygydd Cawley. Sicrhaodd yr Uwcharolygydd Townsend y cynghorydd y byddai hyn yn cael ei drafod â'r Arolygydd Cawley.

- Dywedodd y Cynghorydd Harvey fod yr Arolygydd Cawley ac S Greening bob amser yn barod iawn i helpu gyda'u gwaith rhagorol yn Alway.

- Soniodd y Cynghorydd Forsey am Reolau'r Ffordd Fawr newydd a oedd i'w cyflwyno gyda newidiadau i hawliau tramwy cerddwyr a beicwyr. Gyda hyn mewn golwg, pa gynlluniau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i weithredu a hyrwyddo hyn yng Nghasnewydd. Dywedodd yr Uwcharolygydd Townsend fod yr Heddlu'n derbyn briff gwylio pan ddeddfwyd ynghylch hyn, ynghyd â chyngor gan eu hadran gyfreithiol. 'Gan Bwyll' a'r Adran Cynllunio Gweithrediadau a fyddai'n arwain y gwaith ymgysylltu, a byddai'r gwaith hwnnw'n cefnogi'r gweithrediadau hynny, ond ni fyddai'n arwain yn hynny o beth gan fod addysg yn rhywbeth a oedd yn cael ei gweithredu o ganol yr heddlu. [DVX31] Byddai'r Uwcharolygydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor pan fyddai newidiadau'n digwydd. Yn ogystal â hynny, gofynnodd y Cynghorydd Forsey a oedd Ymgyrch Llwybrau Caeedig wedi'i chynnal. Dywedodd yr Uwcharolygydd y byddai'n ymchwilio i hyn ac yn rhoi adborth.

- Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine pa adnoddau oedd yn cael eu trefnu i fynd ar drywydd beiciau oddi ar y ffordd a beiciau cwad. Dywedodd yr Uwcharolygydd Townsend fod hyn yn broblem genedlaethol. Nid oedd unrhyw dactegau ar gyfer y cerbydau hyn oherwydd y goblygiadau diogelwch pe bai'r heddlu'n ceisio'u hatal, gan nad oeddent wedi'u hyswirio i'w defnyddio ar y ffyrdd. Roedd Blaenau Gwent wedi ystyried targedu'r cerbydau hyn wrth iddynt gael eu llenwi â thanwydd neu eu trwsio, wrth gael tanwydd mewn cyfeiriadau penodol. Roedd felly angen ystyried ffordd ddiogel o atafaelu a stopio'r cerbydau a pheidio â'u canlyn, oherwydd gallai hynny beryglu'r unigolyn a'r swyddog.

- Gofynnodd y Cynghorydd M Evans i'r Uwcharolygydd Townsend ymhelaethu ar gynaliadwyedd a phlismona, y cyfeiriodd atynt yn ystod ei chyflwyniad, ac i roi'r newyddion diweddaraf am wasanaeth 101. Dywedodd yr Uwcharolygydd mai ystyr cynaliadwyedd oedd gwneud pethau mewn modd mwy effeithlon. Enghraifft o hyn oedd defnyddio dyfais/ffôn symudol i uwchlwytho gwybodaeth yn gysylltiedig â digwyddiad drwy fewngofnodi ac anfon yr wybodaeth i'r orsaf yn hytrach na gorfod mynd i'r orsaf ei hun. Roedd hynny'n llawer cynt ac yn galluogi swyddogion i symud ymlaen i'w galwad nesaf. Roedd technoleg adnabod wynebau hefyd yn cael ei defnyddio drwy TCC, ond nid oedd y defnydd hwnnw'n ddefnydd byw a fyddai'n amharu ar hawliau pobl. Roedd 26 o wahanol brosiectau ar waith, pob un ag agwedd dechnegol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar y rheng flaen. O ran 101, roedd yr amseroedd aros ychydig yn wahanol gan fod y galw wedi cynyddu ar ôl covid. Fodd bynnag, dulliau eraill o riportio digwyddiadau oedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac roedd swyddog penodol i ymdrin â'r cyfryngau cymdeithasol yn llwyddo i drafod chwech i saith galwad bob dydd o gymharu ag 1 alwad drwy wasanaeth 101. Roedd dulliau eraill dan ystyriaeth, gan gynnwys ymatebion rhithiol drwy ddefnyddio Teams, a olygai y gallai aelodau o'r cyhoedd siarad â'r heddlu yng nghyfforddusrwydd eu cartref yn hytrach na gorfod ymweld â gorsaf yr heddlu.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Suller at atafaelu ceir. Dywedodd yr Uwcharolygydd fod hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio atafaeliadau Adran 59. Roedd tîm heddlu ffyrdd canolog yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â cheir. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant, ac roedd carfan wedi'i dyrannu i Gasnewydd, gyda chwe swyddog yn gweithio sifftiau 12 awr, yn y bore a chyda'r nos.

Roedd y Cynghorydd Townsend wedi siarad â gyrwyr tacsi am y cynnydd yn y sylwadau hiliol a gofynnodd a oedd hyn yn cael sylw gan yr heddlu ac a fyddent yn gallu cyfarfod â gyrwyr tacsi. Dywedodd yr Uwcharolygydd Townsend nad oedd yn ymwybodol o hyn ond y byddai'n siarad â'i chydweithiwr wrth i droseddau casineb gael eu hadrodd a'u hadolygu'n ddyddiol, felly byddai'r Uwcharolygydd yn ymchwilio i hyn. Gofynnodd yr Uwcharolygydd Townsend i'r Cynghorydd Townsend anfon y manylion ati.

---

[DVX31]English doesn't make sense

5. **Adroddiad Chwe Misol Rheoli'r Trysorlys 2021/22**

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd gyflwyno'r adroddiad uchod.

Dywedodd yr Arweinydd wrth ei gydweithwyr mai adroddiad cydymffurfio oedd hwn i gadarnhau bod gweithgareddau'r Trysorlys yn hanner cyntaf 2021-22 yn gyson â Strategaeth y Trysorlys a ystyriwyd ac a osodwyd yn flaenorol gan yr Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cymharu gweithgarwch â'r sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2020-21 i nodi'r symudiadau a'r achosion wrth wraidd hynny.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

- Derbyniwyd nodyn atgoffa ynghylch strategaeth y trysorlys
- Manylion gweithgarwch benthyca a buddsoddi
- Manylion ystyriaethau economaidd ehangach fel y pandemig a'r hinsawdd economaidd
- Diweddariad i'r cod Trysorlys Rhyngwladol ar gyllid buddsoddi masnachol
- Archwiliad o weithgarwch yn erbyn perfformiad, gan gadarnhau cydymffurfio

Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ac fe'i cymeradwywyd ganddynt i'w ystyried wedi hynny gan y Cyngor llawn.

Ar 30 Medi 2021, cafwyd gostyngiad o £9.1m mewn lefelau benthyca o gymharu â lefelau 2020-21, i £144m.

Roedd hyn yn gysylltiedig ag ad-dalu benthyciad PWLB a aeddfedodd yn hanner cyntaf 2021/22, oherwydd ar 3 Medi nid oedd angen unrhyw fenthyca pellach i ail-lenwi'r benthyciad hwn. Efallai y bydd angen benthyciad dros dro i ddarparu ar gyfer hyn cyn 31 Mawrth 2022.

Roedd yna hefyd nifer o fenthyciadau; Gostyngodd Rhandaliadau Cyfartal o'r Prifswm (EIP) a oedd yn ad-dalu'r prifswm dros oes y benthyciad, a'r llog a oedd yn gysylltiedig â'r benthyciad, wrth i'r prifswm a oedd yn weddill ostwng.

Cafwyd cynnydd hefyd o £4.1m yn lefel y buddsoddiadau i £28.9m, gan olygu gostyngiad o £13.3m mewn benthyciadau net yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol i £115.1m. Roedd y ffigur buddsoddi hwn yn cynnwys £13.9m wedi'i ddal mewn arian parod.

Roedd hyn oddeutu £6m yn is na diwedd y flwyddyn, ond oherwydd parhad y pandemig mae'r Awdurdod wedi parhau i gadw rhagor o arian parod y gellir cael gafael arno'n sydyn ar fyr-rybudd na'r hyn sy'n arferol, rhag ofn y ceir unrhyw alw annisgwyl am arian.

Nid oedd rhyw lawer o alw am fenthyciadau byrdymor iawn o fewn y farchnad, ac ym mis Medi roedd cyfraddau ar adneuon llai na 14 diwrnod o hyd gyda'r Debt Management Account Deposit Facility (DMADF) yn dal yn isel iawn ar 0.01%. Roedd gan yr Awdurdod fuddsoddiad o £15m gydag awdurdodau lleol eraill a chanddynt gyfraddau llog a oedd fymryn yn well, ond yn dal i fod yn isel. Rhagwelwyd y byddai buddsoddiadau'n lleihau yn ystod 2021/22 er mwyn lleihau'r angen i fenthyca nes cyrraedd balans o £10m, a fyddai'n parhau i gael ei fuddsoddi er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau a Chytundebau Ariannol (MiFDII).

O ganlyniad i hyn, nid oedd angen unrhyw fenthyciadau newydd hirdymor newydd yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.

Rhagwelwyd serch hynny y byddai angen i'r Cyngor drefnu benthyciad byrdymor ychwanegol ar gyfer gweddill y flwyddyn, er mwyn darparu ar gyfer gweithgarwch llif arian beunyddiol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ar sail y rhagolygon cyfredol o wariant cyfalaf, disgwyliwyd na fyddai unrhyw ofyniad penodol i ymrwymo i fenthyciad hirdymor yn y flwyddyn ariannol hon, er y gellid ystyried benthyca'n allanol i reoli risgiau'n gysylltiedig â chyfraddau llog ac angen y Cyngor i fenthyca yn y tymor hwy.

Yn olaf, Dangosyddion Darbodus; mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei gysylltiad â risgiau rheoli trysorlys drwy ddefnyddio dangosyddion amrywiol y gellid cael hyd iddynt yn Atodiad B. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'r Dangosyddion Darbodus a osodwyd ar gyfer 2021/22.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn nodi ac yn cymeradwyo'r adroddiad ar weithgareddau rheoli trysorlys hyd 30 Medi 2021, gan gymeradwyo ar yr un pryd fod y gweithgareddau'n unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gytunwyd ar gyfer 2021/22.

6. **Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd gyflwyno'r adroddiad uchod.

Esboniodd yr Arweinydd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor llawn ystyried a chymeradwyo'r adroddiad gweithdrefnol. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau y byddai'r Cyngor yn mabwysiadu'r fersiwn genedlaethol o'r 'Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor', yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2022/23.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor ystyried a chymeradwyo hwn bob blwyddyn. Roedd yr adroddiad yn disgrifio rhai o'r prif newidiadau gan Lywodraeth Cymru i'r cynllun cenedlaethol.

Drwy gymeradwyo'r cynllun hwn, roedd y Cyngor yn sicrhau bod gan Gymru un gynllun cenedlaethol a oedd yn gyson waeth ymhle yr oeddech yn byw. Yn ychwanegol at gymeradwyo'r Cynllun, bu'r Cyngor yn ystyried mân agweddau a oedd yn destun disgresiwn lleol, ac oedd wedi'u hesbonio yn yr adroddiad. Cynigiwyd felly fod y Cyngor yn cadw at y sefyllfa gyfredol yn gysylltiedig â'r rhain.

Achubodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfle i atgoffa ac annog yr holl breswylwyr a oedd ar incwm isel, a oedd angen cymorth ariannol i dalu eu Treth Gyngor, i gysylltu â'r adran fudd-daliadau i wneud cais am y cynllun. Roedd y cynllun yn werthfawr ac ar gael i breswylwyr.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a

Chynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan arfer ei hawl i ddisgresiwn lleol, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

7. **Adroddiad Blynddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd gyflwyno'r adroddiad.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i Chris Humphreys am gyflawni rôl y Cyfarwyddwr yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 ei gwblhau gan Chris Humphrey. Bu Chris yn cyflawni rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro o fis Rhagfyr 2019 hyd fis Hydref 2021. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cyfnod pan gamodd Chris i'r rôl mewn amgylchiadau eithriadol tu hwnt.

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu cyfnod digynsail yn y galw am, ac o ran darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Ym mis Mai 2021, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru Wiriad Sicrwydd a edrychai yn ôl ar y cyfnod 2020/2021. Yn eu gwiriad, nodwyd y canlynol:

“Canfuom fod cefnogaeth wedi’i hategu gan berthynas agored a gonest ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth”.

Roedd gwasanaethau plant yn profi galw digynsail a chynnydd mewn atgyfeiriadau ac roedd staff yn y gwasanaethau oedolion yn gweithio o dan gryn bwysau. Nodai'r canfyddiadau ddiwylliant o welliant ac o chefnogaeth y naill i'r llall, a chydnabyddiaeth o arweinyddiaeth gadarnhaol. Er bod staff ar eu traed olaf yn ymdrin â dwysedd uchel o achosion cymhleth, roedd morâl yn dda ar y cyfan.

Ar draws Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant, parhawyd i ddarparu gwasanaethau, gan gynnal pob lefel o ddarpariaeth er gwaethaf effaith y pandemig. Rhwng Cysylltwyr Cymunedol, a gwasanaethau ataliol plant hyd at eiriolaeth, gofal cartref, a chymorth i deuluoedd ac ymyriadau statudol mewn achosion cyfiawnder teuluol, a darparu gofal maeth a chartrefi preswyl, darparwyr gofal a chymorth yn uniongyrchol i ddinasyddion. Parhaodd y staff i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb yn ogystal â chanfod datrysiadau arloesol er mwyn ymateb i gyfyngiadau'r pandemig.

Datblygodd y Gwasanaethau Oedolion wasanaeth allgymorth newydd, gan lwyddo i ymwreiddio eu prosesau rhyddhau o'r ysbyty yn Ysbyty newydd Grange a agorwyd fis Medi 2020. Roedd y timau Ysbyty ac Ailalluogi yn bresennol ar safleoedd ysbytai drwy gydol y cyfnod.
Yn y Gwasanaethau Plant cefnogwyd teuluoedd i allu gofalu'n ddiogel am eu plant yng nghartref y teulu yn sgil cyflwyno'r tîm Ymateb Brys a chyflwyno Y Babi a Fi.

Roedd gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a chyda’n cymunedau yn allweddol er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau cadarn a chadarnhaol. Ar bob lefel, parhaodd swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelodau i gynrychioli'r Cyngor mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys y Byrddau Diogelu, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y grŵp rhanbarthol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches a lliaws o grwpiau partneriaeth a ffurfiwyd yn benodol i ymateb i ofynion y pandemig ac i sicrhau y gellid darparu gwasanaethau'n effeithiol ar draws yr holl asiantaethau.

Er y bu pwysau aruthrol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020/2021, amlinellai'r adroddiad y modd yr aeth staff ati'n rhyfeddol i barhau i amddiffyn a gofalu am ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Byddai heriau sylweddol yn codi wrth symud ymlaen i 2021/2022, ond yn sicr byddai'r heriau hynny'n creu cyfleoedd i barhau i wella gwasanaethau.

Gofynnodd yr Arweinydd i Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol ddweud ychydig eiriau ac achubodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Aelod Cabinet am ei waith caled a'i ymroddiad i'r gwasanaethau.

Soniodd y Cynghorydd Cockeram yn gyntaf ei fod yn cytuno â sylwadau'r Arweinydd ynghylch Chris Humphrey, a'r gwaith ardderchog a wnaeth yn ystod y pandemig, a pharhad y gwasanaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y pandemig. Diolchodd hefyd i holl aelodau o staff y cyngor am eu cyfraniad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd heriau mawr o flaen y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys diogelu. Roedd cynnwys yr Heddlu a'r sector iechyd yn yr Hyb Diogelu yn welliant mawr. Cynllun peilot yng Nghasnewydd oedd yr Hyb, a oedd bellach yn cael ei roi ar waith ledled Cymru yn dilyn ei lwyddiant. Yn ogystal â hyn, gallai'r cyfnodau clo'r ysgolion, ac nad oeddem yn gwybod beth oedd yn digwydd i blant, hefyd fod yn broblem.

Roedd gan y Cyngor 380 o blant sy'n derbyn gofal, ac roedd 256 o'r rheiny mewn gofal maeth. Gofalwyr maeth oedd yn gofalu am y mwyafrif o blant, ac roedd yr Aelod Cabinet am ddiolch iddynt am eu gwaith caled. Gwelwyd hefyd 26 o achosion mabwysiadu llwyddiannus yn ystod y cyfnod clo. Un o'r meysydd yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch yn ei gylch oedd cartrefi preswyl y Gwasanaethau Plant fu hefyd yn llwyddiant mawr, ac roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu llythyr i ddiolch i'r Cyngor am y gwasanaeth hwn.

Cafwyd 840 o atgyfeiriadau o'r ysbyty newydd yn Llanfrechfa, a llwyddwyd i ryddhau 475 o'r rhain, a olygai y llwyddwyd i atal 60% o'r rhain rhag mynd i'r ysbyty. Roedd Gwasanaeth Ailalluogi Dementia newydd hefyd yn gwneud yn dda.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am eu cyllid. Roedd Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar y cyllid hwnnw. Cafodd yr adroddiad hefyd ei gyflwyno gerbron craffu, gan dderbyn sylwadau cadarnhaol. Bu tanwariant, ond nid ydym yn y byd go iawn ar hyn o bryd oherwydd effaith covid.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r staff a oedd wedi gwneud gwaith rhagorol, ond a oedd hefyd yn flinedig, ac roedd problem gyffredinol o ran staffio ledled Cymru. Teimlai'r Aelod Cabinet fod angen adroddiad rhanbarthol ar sut i gynyddu niferoedd staff, a gofynnodd i Goleg Gwent a cholegau eraill gynnig bwrsariaethau i annog pobl i ymuno â'r proffesiwn a gweithio i'r Cyngor. Yn olaf, ystyriai'r Aelod Cabinet fod yr adroddiad hwn yn gadarnhaol ar y cyfan.

Gwahoddwyd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Sally Jenkins i ddweud ychydig eiriau hefyd. Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddiolch i Chris Humphrey, a diolch hefyd i'r staff am eu bod wedi bod o dan bwysau anferthol. Roedd y staff yn flinedig a morâl yn isel, ond roedd y negeseuon cadarnhaol a ymrwymiad i staff barhau i weithio i Gasnewydd drwy gadw myfyrwyr yn tystio i'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn trafod y flwyddyn 2021, ond roedd hi'n teimlo fel pe baem wedi ymlwybro'n syth i gyfnod heriol iawn arall yn 2022.

I gloi, achubodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y cyfle i ddiolch i Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r aelodau etholedig eraill, am eu cefnogaeth wrth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i ddarparu eu gwasanaethau. Yn wyneb amrywiad Omicron, roedd pryder ynghylch sut y byddai staff yn parhau i weithio, ond gellid monitro hyn, a byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud popeth i sicrhau'r gwasanaeth gorau drwy'r gefnogaeth a fyddai'n cael ei chynnig.

<u>Sylwadau gan Gynghorwyr:</u>

- Diolchodd y Cynghorydd Hughes i Chris Humphrey am ei hadroddiad, gan ddweud ei fod yn cofio gweithio iddi fel gweithiwr cymdeithasol. Roedd y Cyngor yn ymfalchïo yn y timau ac yn y ffordd yr oeddent yn ymddwyn. Fel gweithiwr cymdeithasol ei hun, teimlai

nad oedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n ddigon aml. Soniodd y Cyngor hefyd am gynnydd gofal maeth yng Nghasnewydd.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2020/21.

8. **Deddf Hapchwarae - Datganiad o Egwyddorion**

Gofynnodd y Maer i'r Aelod Cabinet Trwyddedu a Rheoleiddio gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Truman wrth y cyngor fod Deddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, yn rhinwedd ei statws fel yr "Awdurdod Trwyddedu", ddiwygio ei Bolisi Gamblo unwaith bob tair blynedd.

Daeth y Polisi Gamblo cyfredol i rym ym mis Ionawr 2019, felly cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r polisi gerbron y Cyngor.

Roedd y polisi cyfredol yn gweithio'n dda iawn, yn cefnogi busnesau ac yn rhoi arweiniad i'r cyngor a'i swyddogion. O ganlyniad i hyn, ychydig iawn o ddiwygiadau a wnaed i'r polisi hwnnw.

Cyfeiriadau, data a dyddiadau yn bennaf oedd y newidiadau a gynigiwyd. Mae prif egwyddorion y Polisi yn dal yr un peth.

Roedd y Polisi'n parhau i gefnogi'r tri amcan trwyddedu:

1 lleihau trosedd
2 cynnal tegwch a
3 amddiffyn plant.

Roedd hi'n debygol y byddai Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad pellgyrhaeddol o reoliadau gamblo yn ystod y flwyddyn. Os felly, gellid bod angen cynnal adolygiad manylach o'r polisi er mwyn ymdrin ag unrhyw ymagweddau newydd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y polisi arfaethedig rhwng 16 Awst 2021 a 31 Hydref 2022.

Dim ond un sylw a gafwyd gan y cwmni cyfreithwyr a oedd yn cynrychioli'r Cyngor Betio a Hapchwarae. Roedd y sylw hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. O ganlyniad i'w fewnbwn gwnaed amryw o fân newidiadau i'r polisi. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, roedd y polisi'n haws i'w ddarllen. Diolchodd y Cynghorydd Truman i'r Cyngor Betio a Hapchwarae am ei fewnbwn.

Nid oedd y Polisi'n ymdrin â gamblo ar-lein na gemau a gynhelir gan y Loteri Genedlaethol gan mai'r Comisiwn Gamblo oedd yn llywodraethu ac yn gorfodi yng nghyswllt y rheiny.

Gan hynny, cynigiodd y Cynghorydd Truman fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig o dan Ddeddf Gamblo 2005.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig o dan Ddeddf Gamblo 2005.

9. **Amserlen Cyfarfodydd 2022/23**

Roedd yr amserlen a gynigiwyd ar gyfer cyfarfodydd yn ceisio trefnu'r dyddiadur i gynnal cyfres o gyfarfodydd a fyddai'n hyrwyddo'r broses benderfynu drwy'r Cyngor, y Weithrediaeth a'r Pwyllgorau Rheoleiddio. Roedd yr amserlen cyfarfodydd yn sefydlu patrwm o gyfarfodydd ar gyfer Pwyllgorau Craffu a chyrff eraill.

Nid oedd y dyddiadur yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd Aelodau Cabinet unigol, oherwydd byddai Aelodau Cabinet yn barnu a oedd angen iddynt gyfarfod i wneud penderfyniadau, yn hytrach na'u bod wedi'u rhwymo i ddyddiadur o gyfarfodydd. Ni fyddai hyn, wrth gwrs, yn amharu ar gyfleoedd yr aelodau i ymgynghori ar benderfyniadau a gynigir, nac i wneud cais i gyfarfod yr Aelod Cabinet cyn gwneud penderfyniadau.

Ar wahân i gyfarfod y Cyngor, awgrymwyd y dylid gadael i bob pwyllgor unigol benderfynu ar ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau pob cyfarfod. Awgrymwyd bod y pwyllgorau a'r grwpiau amrywiol yn rhoi ystyriaeth i anghenion Cynghorwyr a chanddynt waith neu ymrwymiadau eraill ar unrhyw bryd yn ystod y dydd.

Byddai'r amserlen yn parhau i fod yn ganllaw, ac yn agored i'w newid a'i diwygio er mwyn bodloni anghenion rhaglenni gwaith pob pwyllgor neu grŵp arall.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r amserlen cyfarfodydd fel sail ar gyfer trefniadau o fis Mai 2022 hyd fis Mai 2023.

10. **Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd: 13 Rhagfyr 2021**

Dywedodd y Maer fod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o 13 Rhagfyr wedi'u cyflwyno gerbron ei gydweithwyr i'w nodi. Fodd bynnag, roedd un mater wedi'i gyfeirio gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i sylw'r Cyngor llawn i'w benderfynu, a byddai'r mater hwnnw'n cael ei gyflwyno gerbron aelodau'r Cyngor.

O dan Eitem 5 roedd trafodaeth gofnodedig ynghylch a ddylai'r Pwyllgor argymell bod y Cyngor yn penodi Aelod Llywyddol i gadeirio cyfarfodydd y Cyngor o fis Mai 2022 ymlaen. Yn y cyfarfod, roedd y bleidlais yn gyfartal a gwrthododd y Cadeirydd roi ail bleidlais fwrw. Roedd y mater felly wedi'i gyfeirio i sylw'r Cyngor llawn heb unrhyw argymhelliad.

Cyn y gellid cynnal unrhyw drafodaeth a phleidlais ar y mater, byddai angen felly i aelod o'r Cyngor wneud cynnig, ac eilio'r cynnig hwnnw'n ffurfiol, ynghylch a ddylai'r Cyngor benodi Aelod Llywyddol ai peidio.

Gofynnodd y Maer i'w gydweithwyr wneud cynnig ffurfiol i benodi Aelod Llywyddol. Cynigiodd y Cynghorydd Hourahine hynny a chadw'r hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth. Eiliodd y Cynghorydd Whitcutt y cynnig hefyd a chadw'r hawl i siarad yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

Cododd y Cynghorydd Fouweather bwynt ynghylch trefn, gan gwestiynu a oedd y cynnig yn gynnig cyfreithiol, gan nad oedd wedi'i gynnwys ymhlith yr eitemau ar Agenda'r Cyngor.

Sicrhaodd y Swyddog Monitro y Cynghorydd Fouweather a gweddill y Cyngor fod hwn yn gynnig dilys, yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor. Roedd y mater wedi'i gyfeirio i sylw'r Cyngor a'i gofnodi yng nghofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a oedd wedi'u cyhoeddi ar agenda'r Cyngor. Nid oedd angen i'r cynnig fod wedi'i ysgrifennu. Yn syml, roedd y cynnig a wnaed ac a eiliwyd yn gynnig i benodi Aelod Llywyddol.

Gofynnodd y Maer wedyn a oedd unrhyw gynghorwyr yn dymuno gofyn am welliant i'r cynnig gwreiddiol. Gofynnodd y Cynghorydd M Evans felly am welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd

Fouweather, sef bod gwybodaeth bellach am y swydd-ddisgrifiad a'r tâl cydnabyddiaeth yn cael ei chyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er trafodaeth bellach.

Aeth y Cyngor ati wedyn i drafod y diwygiad yn gyntaf.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

- Siaradodd y Cynghorydd M Evans o blaid y diwygiad. Gwrthodwyd penodi Aelod Llywyddol yn wreiddiol yn 2019 oherwydd y gost yn gysylltiedig â'r rôl, ac nid oedd sicrwydd a fyddai'n benodiad cyfnod penodol o bum mlynedd. Yn ogystal â hyn, teimlwyd y byddai rôl y Maer yn cael ei lleihau a'i thanbrisio ac y dylai'r mater felly gael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bryd hynny, gofynnodd y Cynghorydd Evans am bleidlais gofnodedig ynghylch y gwelliant.

- Siaradodd y Cynghorydd Whitcutt am y gwelliant, a dywedodd pe bai'r cynnig gwreiddiol yn cael ei basio, y gellid trafod manylion y rôl yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a byddai'r mater wedyn yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor. Byddai'r Aelod Llywyddol yn gallu cyflawni ei rôl yn ogystal â'i ddyletswyddau arferol, yn debyg i gadeiryddion pwyllgorau. Gofynnodd y Cynghorydd Whitcutt felly am gael ystyried y cynnig gwreiddiol.

- Gofynnodd y Cynghorydd M Evans am eglurhad ynghylch pwy a allai gael ei benodi'n Aelod Llywyddol. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn penderfynu pwy a allai wneud cais yn rhan o'r broses ymgeisio, gan ychwanegu y byddai'r Aelod Llywyddol yn benodiad llawn amser i'r Cyngor.

- Siaradodd y Cynghorwyr Suller, J Watkins a Fouweather o blaid y gwelliant a phwysleisio pwysigrwydd a dyrchafiad rôl Maer Casnewydd a'i bod yn briodol trafod hyn yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er ystyriaeth bellach.

- Soniodd y Cynghorydd Harvey fod Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cyfeirio hyn i sylw'r Cyngor, ac ychwanegodd y byddai rôl yr Aelod Llywyddol yn anwleidyddol.

- Roedd y Cynghorydd Mudd o'r farn na fyddai hyn yn gostwng statws y faeryddiaeth, a bod y Cyngor wedi gwneud cais i ddyrchafu Maer Cyngor Dinas Casnewydd i fod yn Arglwydd Faer yn ystod Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Cockeram fod cadeirio'r Cyngor yn anodd iawn pan oedd ef ei hun yn faer, a byddai hyfforddiant fel Aelod Llywyddol yn ddelfrydol, ac y gellid hefyd gadeirio seminarau'r aelodau. Roedd felly angen cysondeb.

- Holodd y Cynghorydd Jordan ynghylch y cyflog o £25,000 y flwyddyn, a gofynnodd ai ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn unig yr oedd hyn, neu a fyddai angen cadeirio cyfarfodydd eraill. Dywedodd y Swyddog Monitro mai ar gyfer cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn unig yr oedd hyn. Cyfanswm y cyflog oedd £25k, ond roedd yn golygu £9k yn ychwanegol ar ben cyflog sylfaenol cynghorydd, gan greu £25k fel cyfanswm.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Morris at y ffaith bod yn rhaid i'r Maer fod yn amhleidiol, ac na ddylai weithredu mewn modd gwleidyddol. Fodd bynnag, teimlai ei bod hi'n anodd dehongli'r hyn a oedd yn cael ei roi gerbron y Cyngor, ac roedd yn cytuno y dylid anfon y mater yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w drafod a'i ystyried eto yn y flwyddyn nesaf.

- Roedd y Cynghorydd Spencer o blaid y cynnig gwreiddiol oherwydd gellid cyflwyno'r argymhelliad hwn gerbron y Cyngor eto, ar ôl ei drafod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

- Rhoddodd y Cynghorydd M Evans grynodeb o'i welliant, a dywedodd pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn fel yr oedd, gallai Aelod Cabinet hefyd fod yn Faer, gan gael gwared â'r elfen amhleidiol. Gallai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod wedi atal trafodaeth ynghylch yr Aelod Llywyddol, ond teimlai fod angen trafod y mater ymhellach yn y Cyngor. Teimlai'r Cynghorydd Evans ei bod yn llawer rhy fuan i ystyried y cynnig a gofynnodd am gael pleidlais wedi'i chofnodi i edrych ar y rôl yn fanylach.

- Dywedodd y Cynghorydd Hourahine, yn ei hawl i ateb, fod yr argymhelliad wedi'i gyflwyno gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac mai cais syml ydoedd i benodi Aelod Llywyddol. Roedd yr holl gwestiynau a ofynnwyd heno wedi'u hateb yn rhannol yn yr adroddiad, ac nid oedd unrhyw awgrym y byddai rôl y maer yn cael ei lleihau, a'r gobaith oedd y byddai'r dyrchafiad i Arglwydd Faer yn golygu rhagor o ddigwyddiadau a chyfleoedd i Gasnewydd. Roedd pob Maer wedi gwneud ei orau i gynrychioli'r ddinas, ond ddim o reidrwydd mewn cyfarfodydd cyngor. Er cydymffurfiaeth, roedd rôl yr Aelod Llywyddol, a ddeuai gan LIC, yn newid cadarnhaol ac ni ddylai felly gael ei daflu'n ôl a blaen. Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine felly am gael gwrthod y gwelliant a dychwelyd i'r cynnig gwreiddiol.

Ar gais y Cynghorydd M Evans i gynnal pleidlais gofnodedig ynghylch y gwelliant, cefnogodd y Cynghorwyr Mogford, Fouweather, Suller, Jones a J Watkins y cais, a dyma'r hyn a gofnodwyd:

| Enw'r Cynghorydd | | O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|---|---|
| Al-Nuaimi, Miqdad | | | | 1 |
| Berry, Graham | Absennol | | | |
| Clarke, James | | | 1 | |
| Cleverly, Jan | Gadawodd y cyfarfod | | | |
| Cockeram, Paul | | | 1 | |
| John Jones | | 1 | | |
| Critchley, Ken | | | 1 | |
| Davies, Deb | | | 1 | |
| Dudley, Val | Ymddiheuriadau | | | |
| Evans, Chris | | | | 1 |
| Evans, Matthew | | 1 | | |
| Ferris, Charles | | 1 | | |
| Forsey, Yvonne | | | 1 | |
| Fouweather, David | | 1 | | |
| Giles, Gail | | | 1 | |
| Guy, John | | | 1 | |
| Harvey, Debbie | | | 1 | |
| Hayat, Ibrahim | Absennol | | | |
| Hayat, Rehmaan | Absennol | | | |
| Holyoake, Tracey | Goddefeb | | | |
| Hourahine, Phil | | | 1 | |
| Hughes, Jason | | | 1 | |
| Jeavons, Roger | | | 1 | |
| Jordan, Jason | | 1 | | |
| Kellaway, Martyn | | 1 | | |
| Lacey, Laura | | | 1 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Linton, Malcolm | | | 1 | |
| Marshall, Stephen | | | 1 | |
| Mayer, David | | | 1 | |
| Mogford, Ray | | 1 | | |
| Morris, Allan | | 1 | | 1 |
| Mud, Jane | | | 1 | |
| Gavin, Horton | | | 1 | |
| Richards, John | | | 1 | |
| Routley, William | Ymddiheuriadau | | | |
| Spencer, Mark | | | 1 | |
| Suller, Tom | | 1 | | |
| Thomas, Herbie | | | 1 | |
| Thomas, Kate | | | 1 | |
| Townsend, Carmel | | 1 | | |
| Townsend, Holly | | 1 | | |
| Truman, Ray | | | 1 | |
| Watkins, Joan | | 1 | | |
| Watkins, Trefor | | | 1 | |
| Whitcutt, Mark | | | 1 | |
| Gwyn, Richard | Goddefeb | | | |
| Whitehead, Kevin | | | 1 | |
| Wilcox, Debbie | | | 1 | |
| Williams, David | | 1 | | |
| | | | | |
| | | **13** | **26** | **3** |

Collwyd y gwelliant fel y nodir yn y tabl uchod. Felly, agorodd y Maer y drafodaeth ynghylch y cynnig gwreiddiol.

Teimlai’r Cynghorydd Whitehead y byddai’r Aelod Llywyddol yn dal yn wleidyddol, ond roedd wedi colli'r hawl i gadw ei sylwadau ar gyfer diwedd y drafodaeth, gan fod y gwelliant i'r cynnig wedi'i golli.

Gwnaeth y Cynghorydd Mayer gynnig cau, sef y dylid bwrw pleidlais ar y mater heb unrhyw drafodaeth bellach. Cafodd y cynnig ei eilio'n briodol a'i basio drwy bleidlais gan y mwyafrif. Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan y Cynghorydd Hourahine, fel y sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol, yr hawl i roi araith gloi cyn cynnal pleidlais ar y mater yn unol â'r cynnig cau.

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd Hourahine ei safbwynt y dylid penodi Aelod Llywyddol.

**Penderfynwyd:**

Penderfynwyd drwy bleidlais gan y mwyafrif y byddai Aelod Llywyddol yn cael ei benodi gan y Cyngor o fis Mai 2022.

11. **Enwebiad Maer ar gyfer 2022/23**

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd enwebu'r Maer ar gyfer 2022/23.

Roedd hi'n bleser gan yr Arweinydd gael cynnig y Cynghorydd Kellaway yn ffurfiol fel Maer ar gyfer 2022/23, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd M Evans.

Roedd y Maer yn falch iawn mai'r Dirprwy Faer a fyddai'n cael bod yn Faer.

**Penderfynwyd:**

Enwebodd y Cyngor y Cynghorydd Martyn Kellaway fel y Maer ar gyfer 2022/23.

12. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Rhoddodd yr Arweinydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor am gyhoeddiadau diweddar.

**Cymorth i breswylwyr a busnesau**
Roedd llawer o drigolion a busnesau'n wynebu dwy flynedd heriol a gallai'r cyfnod ar ôl y Nadolig fod yn arbennig o anodd ar rai.

Ynghyd â'i bartneriaid, gallai'r Cyngor gynnig cyfoeth o gyngor a chefnogaeth - o gymorth gyda biliau, hyd at gymorth i ganfod gwaith neu gael hyfforddiant. Os oedd unrhyw un yn cael trafferthion ariannol, roedd yr Arweinydd yn eu hannog i gysylltu. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ar y wefan drwy gysylltu â Chanolfan Cyswllt y Ddinas.

Roedd yr Arweinydd yn falch bod y Cyngor yn gallu ymrwymo £100,000 i gefnogi sefydliadau lleol a oedd yn ymroi i helpu pobl sy'n dioddef oherwydd tlodi bwyd. Roedd banciau bwyd yn achubiaeth i rai unigolion a theuluoedd, gan gynnig cyflenwadau hanfodol i'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd talu am yr hanfodion mwyaf sylfaenol.

Roedd y galw am y banciau bwyd yn uchel iawn ac roedd y Cyngor yn cyllido gwasanaethau yng nghanol cymunedau, gan eu bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau bob dydd pobl.

Byddai'r cyllid yn helpu mentrau bwyd cymunedol i fodloni'r cynnydd yn y galw neu'r anawsterau wrth geisio sicrhau rhoddion digonol.

Roedd y cyngor hefyd yn gweinyddu cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf i breswylwyr Casnewydd, ac roedd yr Arweinydd yn annog pobl a oedd yn gymwys i wneud cais am y cymorth ariannol ychwanegol hwn cyn y dyddiad cau, sef 18 Chwefror.

Roedd cymorth i fusnesau lleol yn dal i fod ar gael drwy ddosbarthu grantiau i'r rhai hynny yr effeithiwyd ar eu bywoliaeth oherwydd y pandemig.

Roedd y Cyngor hefyd yn cefnogi'r rhai a oedd yn dymuno dechrau neu ehangu busnes bach drwy Gronfa Busnes Dinas Casnewydd. Roedd y Gronfa honno'n cynnig grantiau o hyd at £10,000 tuag at gostau fel rhent, neu i brynu cyfarpar.

**Menter graffiti canol y ddinas**
Roedd y Cyngor yn gweithio gyda Newport Now, yr Ardal Gwella Busnes, i fynd i'r afael â graffiti yng nghanol y ddinas. Gallai busnesau a oedd wedi ymaelodi â'r fenter drefnu i'r cyngor gael gwared â graffiti yn rhad ac am ddim, yn sgil cyllid gan Newport Now.

Nod y fenter oedd gwneud canol y ddinas yn ardal fwy dymunol i siopwyr, preswylwyr a gweithwyr, a hyrwyddo'r economi leol.

Roedd hyn yn dal i fod ymhlith blaenoriaethau'r Cyngor, ac roedd yr Arweinydd yn falch o weld rhai busnesau annibynnol newydd yn agor eu drysau dros y misoedd diwethaf. Ni fu hi erioed mor bwysig i siopa'n lleol - yn ogystal â bod yn well i'r amgylchedd, roedd hyn yn hollbwysig gan mai drwy gael eu defnyddio oedd yr unig ffordd y gallai'r busnesau hyn ffynnu a goroesi.

**Gwerth Cymdeithasol**
Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y Cabinet yr wythnos diwethaf wedi cytuno i roi gwerth cymdeithasol wrth galon ei waith.

Byddai'r Cyngor yn mabwysiadu fframwaith themâu, canlyniadau a mesurau cenedlaethol Cymru ar gyfer mesur gwerth cymdeithasol (a elwir yn TOMS).

Roedd yn nodi saith thema, 35 o ganlyniadau a 93 o fesurau a gynhyrchwyd i helpu cyrff y sector cyhoeddus i ennill mwy o werth cymdeithasol drwy eu prosesau comisiynu, caffael a rheoli contractau.

Byddai hyn y galluogi'r cyngor i sicrhau bod ei waith yn cynhyrchu cymaint o werth cymdeithasol ag sy'n bosibl, gan greu budd i'r bobl a'r cymunedau yr oedd yn eu gwasanaethu.

**Cynllun cyllidebu cyfranogol**
Ym mis Chwefror a mis Mawrth, gallai preswylwyr bleidleisio dros brosiectau a gynigir yn rhan o gylch diweddaraf y cynllun cyllidebu cyfranogol, Ein Llais, Ein Dewis, Ein Porth.

Lansiwyd y cynllun y llynedd, ac mae 24 o grwpiau a phrosiectau cymunedol wedi cael cyfran o'r £103,000 a oedd ar gael yn y cylch cychwynnol.

Dyrannodd y Cyngor £250,000 o'i gronfa adfer ar ôl Covid-19 ar gyfer cylch presennol y cynllun. Pwrpas y dyraniad oedd cael grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau adfer ar ôl Covid yn y gymuned.

Darparwyd £165,000 arall gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan olygu bod cyfanswm o £415,000 ar gael yn y cylch hwn.

Roedd grwpiau a phrosiectau cymunedol yn gallu gwneud cais am hyd at £15,000 er mwyn helpu i gefnogi syniad neu brosiect a oedd o gymorth i gyflawni un o themâu allweddol y cynllun.

Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i brosiectau'n unol â'u cyfran o'r bleidlais. Roedd hon yn ffordd wych o rymuso preswylwyr i benderfynu ar yr hyn a oedd yn bwysig iddynt.

**Pont Devon Place**
Diolchodd yr Arweinydd i bawb fu'n rhan o'r gwaith i osod rhychwantau pont newydd Devon Place dros y rheilffordd yn ystod y Nadolig. Bu'r gwaith yn llwyddiant mawr, ac roedd yn ddarn rhagorol o beirianneg.

Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan y Cyngor, gan weithio gyda'n partneriaid, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, a'r contractwyr lleol Alun Griffiths.

Roedd gwaith bellach ar y gweill ar weddill y bont, a ddylai gael ei gwblhau'n ddiweddarach eleni.

Roedd yn cymryd lle hen danlwybr Devon Place, a fyddai'n creu cyswllt teithio llesol o ganol y ddinas i'r strydoedd i'r gogledd o'r llinell reilffordd.

**Diwrnod Cofio'r Holocost**
Dydd Iau 27 Ionawr fyddai un o'r diwrnodiau mwyaf difrifol ar y calendr.

I gydnabod Diwrnod Cofio'r Holocost, roedd y Cyngor yn paratoi i oleuo tŵr cloc y Ganolfan Ddinesig yn biws, a chodi'r faner goffa y tu allan i'r adeilad.

Y thema eleni oedd "Un Diwrnod" lle byddai pobl o bob cwr o'r byd yn cofio pawb a fu farw mewn hil-laddiadau - yn yr Holocost, Cambodia, Rwanda, Bosnia, Darfur.

Roedd Casnewydd yn cynnwys llawer o gymunedau amrywiol ac roedd yr Arweinydd yn dymuno dathlu hynny yn ogystal â chroesawu'r rhai a oedd yn ymgartrefu yn y ddinas, ac roedd hi'n bwysig i bawb deimlo'n ddiogel yn y ddinas.

Roedd yr Arweinydd yn falch y byddai'r Cyngor unwaith eto yn "goleuo'r tywyllwch" drwy oleuo tŵr y cloc, a gobeithiai y byddai pobl yn ymuno â'r digwyddiad coffa cenedlaethol ac yn gosod cannwyll mewn man diogel ar sil ffenestr am 8pm.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

Cynghorydd M Evans:

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at benderfyniad brys a gymerwyd gan yr Arweinydd ar 1 Rhagfyr 2021 yng gysylltiedig  a threfniadau teithio am ddim ar fysus dros gyfnod y Nadolig, lle nad oedd cyfle i'r cynghorwyr wneud sylw gan na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad. Gofynnodd y Cynghorydd Evans pam nad oedd hyn wedi'i gynllunio yn gynharach, faint oedd y cynllun teithio am ddim wedi'i gostio, ac a oedd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod y penderfyniad a wnaed yn seiliedig ar gyngor swyddogion proffesiynol.  Roedd y cynllun yn cynnig cyfle i breswylwyr deithio am ddim o amgylch Casnewydd yn ystod 1-21 Rhagfyr.  Dangosai adroddiad Burns nad oedd gan 35% o'r preswylwyr geir, felly roedd hyn yn galluogi'r rhai heb geir i gael mynediad at ganol y ddinas ac ymweld â theulu a ffrindiau yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig. Roedd hefyd yn adlewyrchu gwerth teithio llesol i bobl.  Cafwyd cynnydd yn nifer y teithiau gan deithwyr, ac roedd y manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yr oedd y Cyng. Evans yn cyfeirio ato yn ei gwestiwn.

Atodol:
Pam na phenderfynwyd ynghylch hyn yn yr haf er mwyn hyrwyddo cyllid.  Ar gyngor swyddogion, pam bod y penderfyniad wedi'i wneud mor hwyr yn y dydd.

Ymateb:
Cyfeiriodd yr Arweinydd yr adroddiad i sylw'r Cynghorydd Evans eto, a dywedodd y llwyddwyd i sicrhau cyllid allanol ar gyfer cynllun arall tebyg i hwn, ac y byddai'r Arweinydd yn gwneud cyhoeddiad ynghylch hynny'n fuan.

Cynghorydd Whitehead:
Pryd fyddai'r mynwentydd yn cael eu hagor yn llawn, gan fod ein Cyngor ni ymhlith yr olaf yng Nghymru i beidio ag agor yn llawn, ac roedd y cyhoedd wedi mynegi pryder ynghylch hyn.

Ymateb:
Roedd yr Arweinydd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd a chytunodd â'r gydnabyddiaeth gan y Cynghorydd Whitehead ynghylch y mesurau a weithredwyd yn sgil covid.  Rhai problemau'n gysylltiedig â'r peiriannau mawr a mynediad i gerbydau yn ystod yr wythnos.  Roedd modd cael mynediad i'r mynwentydd bob dydd, ond weithiau roedd y mynediad hwnnw wedi'i gyfyngu i gerddwyr. Gallai pobl a oedd angen mynediad i'r fynwent gysylltu â'r cyngor i drefnu hynny.  Roedd mynwentydd ar agor dros gyfnod y Nadolig, ond adroddwyd bod rhai pobl yn trin mynwentydd yn wael gan ddangos diffyg parch.  Bu bron i un gyrrwr daro galarwyr yn ystod angladd.  Cafwyd difrod gwerth £25,000 ym mynwent Eglwys y Drindod, pan dorrwyd i mewn iddi, ac roedd llawer o luniau a ddangosai ddiffyg parch, gyda phobl yn parcio ar fynwentydd.  Serch hynny, roedd angen inni sicrhau eu bod ar

agor i'r cyhoedd, ac roedd y Cyngor ar ganol cynnal asesiad pellach i agor i'r cyhoedd mewn modd diogel, a byddai gwybodaeth ar gael yn fuan.

Atodol:
Soniodd y Cynghorydd Whitehead fod y system archebu i'w gweld yn gymhleth i grŵp oedran penodol, a gobeithiai y byddai'r drefn arferol yn dychwelyd cyn gynted ag â phosib.

Cynghorydd C Townsend:
Yn debyg i Whitehead, cyfeiriodd y Cynghorydd Townsend hefyd at fynediad at fynwentydd a gofynnodd a ellid cynnal Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb, a fyddai o gymorth mawr.[DVX31]

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd na fyddai angen ystyried hynny o ran agor mynwentydd, gan nad oedd unrhyw newidiadau i bolisi, er bod AETChau yn berthnasol ac yn cael eu hystyried ym mhob penderfyniad a wneir gan y Cyngor.

**Cwestiynau Pleidlais**

Cynghorydd K Thomas:
Yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n dod i'r amlwg, a allai'r Arweinydd roi amlinelliad i'r aelodau o'r cymorth sydd ar gael i ddinasyddion ar hyn o bryd.

Ymateb:
Soniodd yr Arweinydd ei bod hi'n gyfnod anodd ac mai'r brif her oedd yr argyfwng ynni, ac yn y misoedd nesaf byddai codiadau mewn biliau ynni nas gwelwyd mo'u tebyg erioed o'r blaen. Roedd y Resolution Foundation wedi tynnu sylw at y ffaith bod y cynnydd mewn prisiau ynni yn mynd heibio'r cyflog byw. Yn ôl adroddiad Resolution, roedd y gwanwyn yn ymddangos yn arbennig o anodd, gyda thrychineb costau byw eang ym mis Ebrill, a dyma'r hyn yr oedd dinasyddion yn ei wynebu ar ôl pandemig. Gyda biliau eraill yn codi, gallai hyn olygu bod aelwydydd yn wynebu cynnydd o fwy na £1,000. Roedd y Cyngor yn ceisio lliniaru effeithiau hyn, ond roedd pwysau aruthrol hefyd ar gyllidebau cyngor. Roedd yr effaith ar deuluoedd yn golygu bod yn rhaid i breswylwyr ddewis rhwng gwresogi eu cartrefi a bwyta. Byddai'r Cyngor yn cyfeirio preswylwyr, gan gynnwys busnesau bach, i wasanaethau cymorth a chefnogaeth. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ar y wefan, ac roedd yr Arweinydd yn annog preswylwyr a busnesau i gysylltu gan fod cyllid o £100,000 ar gael gan y Cyngor, yn ogystal â chyllid Tanwydd y Gaeaf, felly roedd yn rhaid i'r preswylwyr ymgeisio cyn 18 Chwefror.

---

[DVX31]Townsend - please correct English

13. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Roedd yna bum cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

**Cwestiwn 1 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas**

Cynghorydd Forsey:
Mae llawer ohonom wedi gweld y ffilm ryfeddol o bont droed newydd Devon Place yn cael ei gosod dros wyliau'r Nadolig. A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am y prosiect a nodi'r dyddiad cwblhau a ragwelir.

Ymateb:
Cwblhawyd y gwaith i osod y prif ddeciau dros y Nadolig yn llwyddiannus. Fel y mae'r aelodau'n ymwybodol, dim ond pan nad oes trenau yn rhedeg y gellir meddiannu traciau rheilffordd i wneud gwaith o'r fath, felly roedd angen i'r staff weithio dros nos a thrwy gydol dydd Nadolig.

Hoffwn felly ddiolch i staff o fewn Gwasanaethau'r Ddinas am eu hymroddiad a'u hymdrechion, ein contractwyr Alan Griffiths a Llywodraeth Cymru am ariannu'r prosiect.

Ar hyn o bryd mae contractwyr yn gwneud gwaith datgymalu i gael gwared â'r cynhalwyr a'r padiau concrit dros dro yr oedd eu hangen i'r craen godi darnau o'r bont i'w lle, ac yn gwneud gwaith addasu ar y llinellau trydan uwchben.

Mae'r gwaith i gwblhau'r grisiau, yr esgynfeydd a'r canllawiau yn derfynol yn mynd rhagddo'n unol â'r rhaglen yng ngweithdy Prosteel Engineering ym Mhont-y-pŵl. Byddai'r rhain yn cael eu danfon i'r safle ym mis Mawrth a'u gosod yn eu lle o Queensway a Devon Place.

Ar ôl cwblhau elfen strwythurol y bont, byddai gwaith yn dechrau ar ardal y cyhoedd a fyddai'n cynnwys palmentydd, cynwysyddion ar gyfer planhigion a system ddraenio gynaliadwy.

Mae'r gwaith wedi'i amserlennu i'w gwblhau yr haf yma.

**Cwestiwn 2 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas**

<u>Cynghorydd Marshall:</u>
A all yr Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cyngor am gynlluniau Teithio Llesol ac amlinellu cynlluniau ar gyfer teithio llesol yn y dyfodol yng Nghasnewydd.

<u>Ymateb:</u>
Mae cynlluniau teithio llesol (TLl) eleni wedi mynd rhagddynt yn dda, gyda’r holl gynlluniau wedi’u cwblhau neu wedi’u hamserlennu i’w cwblhau erbyn 31 Mawrth. Dyma'r cynlluniau a gyflawnwyd eleni:

**Parc Tredegar**
Mae'r llwybr yn mynd drwy barc Tredegar, gan barhau ar hyd y tanlwybr i gerddwyr o dan Heol yr Efail i greu cyswllt i'r llwybr drwy'r hen gwrs golff.

**Ynys y Mwncïod**
Mae’r llwybr drwy Ynys y Mwncïod yn cynnwys pont newydd anwahanedig sy'n cysylltu troedffordd gogleddol y brif ffordd, yr ardal o dir agored a'r stad dai, fel nad oes rhaid i ddefnyddwyr ddefnyddio'r croesfannau lluosog i gerddwyr ar gyffordd Ffordd Ddosbarthu'r De. Bydd goleuadau stryd lefel isel hefyd yn cael eu gosod ar y ddau lwybr. Mae'r goleuadau hynny hefyd wedi'u dylunio i sicrhau cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd.

**Pont Newydd yng Nghanolfan Camlas y Pedwar Loc ar Ddeg**
Mae pont teithio llesol newydd wedi'i hadeiladu ar safle camlas Y Pedwar Loc ar Ddeg. Mae’r bont wedi’i lleoli o dan Ganolfan Ymwelwyr y Gamlas ac yn cynnig croesfan ddiogel a chyfleus dros y llyn.

**Y Gaer**
Mae'r llwybr yn mynd o Heol Basaleg i Wells Close (Ystâd Gaer) ac yn creu cyswllt ag ardaloedd gogleddol y ddinas a Chanol y Ddinas.

**Cynlluniau i'r Dyfodol**
Mae nifer o brosiectau eraill yn cael eu datblygu (astudiaeth ddichonoldeb amlinellol) eleni gan gynnwys cyswllt a phont camlas y Betws, pont heol y pedwar loc ar ddeg a phont Dociau'r Hen Dref. Bydd yr awdurdod yn cyflwyno ceisiadau am gyllid pellach yn 2022/23 er mwyn gallu cyflawni'r cynlluniau hyn.

Er mwyn helpu i gynllunio gwaith gwella ac ehangu Teithio Llesol yn y ddinas yn y dyfodol, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus graddfa fawr yn 2021. Rydym wedi defnyddio'r

wybodaeth o'r ymgynghoriad yn sail ar gyfer ein Map Rhwydwaith Teithio Llesol statudol ar gyfer Casnewydd. Cyflwynwyd hwn ym mis Rhagfyr i Lywodraeth Cymru

**Cwestiwn 3 – Aelod Cabinet: Datblygu Cynaliadwy**

Cynghorydd Horton:
Yng nghyfarfod diwethaf y cyngor llawn cyhoeddodd yr Arweinydd fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi ennill "Gwobr Sefydliad Eithriadol" yng ngwobrau Amgylchedd cyntaf y National. A all yr aelod cabinet roi gwybodaeth i'r cyngor am y gwaith parhaus sydd wedi arwain at y wobr hon.

Ymateb:
Mae'r wobr hon yn deillio o'r ymdrech eithriadol a gafwyd yn gyffredinol, ac yn adlewyrchiad o gyfanswm y gostyngiad y mae'r Cyngor wedi'i sicrhau mewn allyriadau carbon dros y 3 blynedd diwethaf. Drwy gyfuniad o brosiectau cyfalaf a newidiadau polisi beiddgar, mae'r Cyngor wedi lleihau ei ôl troed carbon yn sylweddol, ac wedi parhau i sicrhau'r gostyngiadau hyn mewn ynni er gwaethaf effaith COVID 19.

Mae'r prosiectau hyn wedi amrywio rhwng:

**Hyfforddiant ac ymgysylltu â gweithwyr ynghylch cynaliadwyedd a lleihau carbon**
Darparu hyfforddiant ar lythrennedd carbon i'r Aelodau a'r staff, a thrwy ymgysylltu'n eang drwy weithdai yn rhan o'r gwaith i greu Cynllun Newid Hinsawdd arfaethedig y Cyngor. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn parhau fel rhan o'r gwaith i gyflawni ein hamcanion carbon niwtral ar gyfer 2030, a bydd yn allweddol cynnwys yr holl Aelodau a'r gweithwyr er mwyn llwyddo.

**Ôl-ffitio adeiladau**
Mae'r cyngor wedi cwblhau prosiectau fel trosi holl oleuadau'r felodrom yn oleuadau LED 100%, ac rydym bellach yn datblygu rhaglen waith uchelgeisiol ar draws yr ystâd a fydd yn cynnwys gosod pympiau gwres i leihau'r defnydd o foeleri nwy, paneli PV Solar, goleuadau LED, systemau awyru mwy effeithlon a rheolaethau newydd.

**Gosod paneli solar**
Gan weithio mewn partneriaeth ag Egni Co-op (grŵp ynni cymunedol) cipiodd y Cyngor y wobr am y "Cynllun Ynni Cymunedol" gorau yng Ngwobrau Ystadau Cymru am y gwaith a gyflawnwyd gennym, yn gosod paneli solar ar gynifer â 27 o adeiladau cyngor. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer fferm solar fechan ar dir y cyngor sy'n adlewyrchu ymrwymiad y weinyddiaeth i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a chynaliadwyedd.

**Cerbydau trydan a chyfleusterau i'w gwefru**
Mae'r cyngor wedi gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan i'r cyhoedd ar draws nifer o'n meysydd parcio cyhoeddus (https://www.newport.gov.uk/en/Transport-Streets/Electric-vehicle-charge-points.aspx) ac rydym yn parhau i ddarparu seilwaith cyhoeddus drwy osod pwyntiau gwefru ar y stryd a phwyntiau gwefru cyflym i'w defnyddio gan breswylwyr.

**Dylunio Cynaliadwy**
Mae'r Cyngor yn cefnogi dau ddatblygiad tai carbon isel, y cytunwyd i beidio llosgi tanwydd ffosil ynddynt i ddarparu gwres. Mae'r datblygiadau hefyd wedi cynnwys parthau gwanhau SDCau â chymysgedd dôl wlyb o fflora wedi'u plannu, gan gynnwys rhywogaethau o goed/llwyni cnau/aeron i gynnig cyfleoedd am borthiant a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae'n amlwg pam bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi ennill y wobr ardderchog hon.

Atodol:
A ellid rhoi hyfforddiant i'r aelodau er mwyn cyfeirio preswylwyr yn well?

Ymateb:
Byddai, byddai hyn yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn cael dealltwriaeth well o'r agenda amgylcheddol yn y ddinas. Byddai'r Arweinydd hefyd yn hapus i roi briff i'r Cynghorydd Horton.

**Cwestiwn 4 – Aelod Cabinet: Trwyddedu a Rheoleiddio**

Cynghorydd Mogford:
O fewn y ddwy flynedd ddiwethaf mae nifer o ddinasoedd yn y DU, fel Manceinion a Birmingham, wedi cyflwyno 'Parthau Aer Glân'. A fu unrhyw gynlluniau neu drafodaethau gan y Cyngor i gyflwyno 'Parth Aer Glân' yng nghanol dinas Casnewydd neu yn y cyffiniau?

Ymateb:
Nid oes unrhyw gynlluniau na thrafodaethau ar hyn o bryd ynghylch cyflwyno Parthau Aer Glân yng Nghanol Dinas Casnewydd na'r cyffiniau.

Mae'r cynghorau hynny sydd wedi cyflwyno Parthau Aer Glân wedi'u nodi'n benodol, ac wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Llywodraeth Ganolog. Maent hefyd wedi cael cyllid ychwanegol i alluogi hyn, oherwydd problemau penodol yn gysylltiedig ag ansawdd yr aer yng nghanol y dinasoedd dan sylw.

Hoffwn gyfeirio i sylw'r Cynghorydd Mogford yr wybodaeth fanwl a ddarparwyd gennyf yn flaenorol yng nghyfarfod y Cyngor mewn ymateb i gwestiynau ynghylch rheoli ansawdd yr aer yng Nghasnewydd. Mae'r ardaloedd gwaethaf o ran llygredd yr aer yng Nghasnewydd, lle mae lefelau ocsid nitrus yn uwch na safonau ansawdd yr aer, wedi'u dynodi'n Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer, ac mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn ar hyd coridor yr M4. Yr unig Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer sydd ar gyrion Canol y Ddinas yw'r ardaloedd ar Hoel Cas-gwent a Stryd Siôr. Cafodd pob un o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer hyn eu datgan flynyddoedd yn ôl ac, fel yr hysbysais y Cyngor yn flaenorol, mae lefelau allyriadau'r holl ardaloedd hynny'n gostwng yn raddol. Rydym felly'n gwneud cynnydd da o ran lleihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer.

Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd yr aer ac rydym yn bwriadu prynu a gosod monitorau amser real ychwanegol ar gyfer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer (RhAA) hyn, yn nes at Ganol y Ddinas. Bydd hyn yn ein galluogi i ddiweddaru Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer y Cyngor drwy gynnwys camau gweithredu i wella ansawdd yr aer yn yr Ardaloedd RhAA hyn. Rhan allweddol o'r cynllun gweithredu fydd sefydlu grwpiau gweithredu lleol i ymgysylltu â'r cymunedau lleol, gan fod addysgu'r cyhoedd ac annog newidiadau o ran ymddygiad yn hanfodol er mwyn inni leihau effeithiau llygredd yr aer ar iechyd y cyhoedd. Rydym eisoes wedi sefydlu'r grŵp gweithredu lleol cyntaf yng Nghaerllion, a bydd ail grŵp gweithredu'n cael ei ffurfio'n fuan ar gyfer ardal Heol Cas-gwent.

Mae defnyddio Parthau Aer Glân ymhlith ystod o fesurau posibl y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag ansawdd yr aer, ac ni fyddent ond yn briodol wedi i fesurau eraill, llai ymwthiol, fethu. Fel y dywedais eisoes, mae'r Cyngor wedi datblygu llwybrau teithio llesol a metrau teithio cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan. Ni ellir mynd i'r afael â phroblem ansawdd yr aer ar ei ben ei hun, ac mae'n rhan o'r agenda ehangach yn gysylltiedig â'r newid hinsawdd, ac i leihau carbon.

Atodol:
Byddai dynodi parth aer glân yn welliant, a oedd hynny felly o fewn gallu'r Cyngor?

Ymateb:
Dywedodd y Cynghorydd Truman nad oedd hynny o fewn ei allu.

**Cwestiwn 5 – Aelod Cabinet: Addysg a Sgiliau**

Cynghorydd Hourahine:
Mae llawer o gynghorwyr yn llywodraethwyr ysgol ac yn ymwybodol o'r heriau y mae ein hysgolion wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig. A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor am ddychwelyd i'r ysgol ar gyfer tymor y gwanwyn a chynnwys trosolwg o'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion a staff?

Ymateb:
Mae ein hysgolion wedi wynebu heriau amrywiol wrth ddychwelyd i dymor y gwanwyn, ac mae'r ysgolion hynny'n dal i weithredu'n dda iawn o dan yr amgylchiadau. Rydym yn parhau i weithio gyda'n harweinwyr ysgol i sicrhau ein bod yn rhoi cyngor clir a chefnogaeth wedi'i theilwra i gyd-fynd ag anghenion ysgolion unigol.

Mae swyddogion awdurdodau lleol wedi parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â Phenaethiaid i roi cyngor iechyd a diogelwch, gwybodaeth am y gronfa galedi, y cyngor hunanynysu diweddaraf gan TTP i gymuned yr ysgol, ac unrhyw gyflenwadau angenrheidiol o fonitorau $CO_2$, gorchuddion wyneb a PPE.

Mae dysgu wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ar ddechrau'r tymor hwn, caniataodd Llywodraeth Cymru ddau ddiwrnod cynllunio i ysgolion ystyried sut y gallent weithredu gyda'r rhagolygon o bwysau ar y gweithlu. Roedd ein holl ysgolion yn gwerthfawrogi'r amser a'r lle i wneud hynny, ac yn sgil gwaith rhagorol gan yr awdurdod lleol a'r ysgolion, nid yw'r sefyllfa wedi tarfu rhyw lawer ar Gasnewydd ar y cyfan. Nid yw hyn yn diystyru lefel uchel o gymhlethdodau gweithredol y mae ysgolion wedi ymdrin â nhw o ddydd i ddydd, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n Pennaeth, i staff yr ysgolion ac i swyddogion yr awdurdod lleol sydd wedi gweithio'n ddiflino i 'gadw pethau mor normal ag sy'n bosibl i'n dysgwyr'. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymdrechion yn fawr. Mae ymroddiad ein staff y tu hwnt i'n holl ddisgwyliadau.

Hyd yma, cafwyd llai na deg achos o gau grwpiau blwyddyn. Ar hyn o bryd, rydym wedi gorfod rheoli presenoldeb disgyblion mewn modd sensitif iawn. Mae staff yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi bod yn cefnogi teuluoedd drwy gynnig ystod o strategaethau i roi sicrwydd i ddisgyblion, rhieni a gofalwyr fod yr ysgol yn lle diogel, ac mai dyna yw'r lle gorau i fod.

Lle bo'n bosibl, mae ein hysgolion wedi parhau i ddatblygu eu cynlluniau strategol tymor canolig a hirdymor sy'n cynnwys er enghraifft, gwaith sy'n ymwneud â safonau dysgwyr, rhaglenni dal i fyny, gweithredu Diwygio ADY, a dilyniant Cwricwlwm i Gymru.

Yng Nghasnewydd rydym wedi sicrhau bod lles disgyblion yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn ac rwy'n falch o adrodd bod mwy o gapasiti yn yr ysgolion bellach i atgyfeirio disgyblion i dderbyn gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol. Yn ogystal â hynny, mae ysgolion yn parhau i gael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn gallu cynnal a gwella eu hymagweddau ysgol gyfan eu hunain at lesiant yn dilyn yr ansefydlogrwydd parhaus a ddaeth yn sgil y pandemig.

Er mwyn galluogi a chefnogi disgyblion wrth ddysgu, rydym fel Cabinet wedi goruchwylio'r buddsoddiad mewn offer digidol a fydd yn galluogi dysgu gartref a hefyd yn cynnig tegwch o ran mynediad ar draws yr holl awdurdod lleol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon byddwn wedi darparu'r canlynol i ysgolion:

- 9024 o liniaduron, gliniaduron Chrome, cyfrifiaduron personol a dyfeisiau apple
- 146 o droliau gwefru
- 105 o sgriniau rhyngweithiol
- 106 o daflunwyr

Yn ogystal â hynny, mae'r Cabinet wedi cynnig cyfres o fuddsoddiadau o'r gyllideb i gefnogi addysg a'n hysgolion. Sylwer mai cynigion drafft yw'r rhain, sy'n destun ymgynghoriad ac adolygiad, ond maent ar hyn o bryd yn cynnwys:

- 3 Ymgynghorydd Addysgu newydd ar gyfer ysgolion a fydd yn cefnogi gwaith i adnabod ADY yn gynnar, anghenion ymddygiadol ac yn gweithio gyda'r ysgolion sydd â'r plant mwyaf agored i niwed.
- Cefnogaeth ychwanegol i'r Hyb Diogelu
- 1.2 miliwn ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY
- £1.75 miliwn i gefnogi galw ychwanegol am leoedd i disgyblion
- Cyllid i fynd i'r afael â chodiadau cyflog athrawon a'r gweithlu addysg.
- Bydd angen £888k ychwanegol, sydd ei angen i dalu'r cynnydd a ragwelir yn y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim.

Mae'n werth nodi bod 3200 o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ar ddechrau'r pandemig. Bellach mae angen pryd ysgol am ddim ar 7000 o blant amser cinio. Mae hyn yn gynnydd o 118% ac yn dangos lefel y cymorth sydd ei hangen ar deuluoedd ar draws ein dinas. Y mae hefyd yn mesur effaith y pandemig, yn ogystal â Brexit a'r cynnydd mewn costau byw yn sgil hynny.

Fel Cabinet rydym yn parhau i ymrwymo i gefnogi ein hysgolion, ein staff a'n disgyblion. Rydyn ni eisiau'r gorau i'n plant a bu'r ffocws yn ddiweddar ar lesiant ac ar sicrhau bod teuluoedd a disgyblion yn cael eu cadw'n ddiogel, a bod y diogelwch hwnnw'n parhau. Fodd bynnag, rydym hefyd am i'n plant gael dyheadau a symud ymlaen i wireddu eu breuddwydion, a bydd hyn hefyd yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdod hwn.

The meeting terminated at Time Not Specified